# Newyddion Bethlehem

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Rhifyn cyn y Nadolig 2018

Neges Delwyn

# "Effharisto"



Alla'i ddim dweud mod i'n gwybod lot o Roeg, ond ma'r gwybodusion yn dweud bod Luc wedi defnyddio'r Groeg gorau wrth ysgrifennu hanes geni'r Iesu. Ac wrth i'r efengylau cynnar cael eu copïo roedd y mynachod yn defnyddio'r papur gorau a'r sgrifbinau gorau. Ac yn ein cwm ni mae'n debyg bod y gweithwyr oedd yn aelodau o gapel neu eglwys, wrth dderbyn eu cyflog ym mis Rhagfyr, yn neilltuo'r arian glana' mwya' sgleiniog, yr arian "gorau", i roi yn y casgliad ar y Sul.

Luc, y mynachod, a'r gweithwyr, i gyd am roi eu gorau i'r baban bach a aned ym Methlehem dwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac ry'chi weithwyr ffyddlon Bethlehem, Gwaelod-y-garth, wedi bod yn rhoi o'ch gorau eto eleni drwy goginio ac addurno, a chynorthwyo a bwydo a darparu te, a cherddded a chwisio a chanu, a bydd ein helusen "Ysbyty Felindre" ar ei helw o'r herwydd.

Felly, ar ddiwedd y flwyddyn hon ga'i ddymuno'r Nadolig gorau posib i chi, cyn i ni fwrw mlaen i roi o'n gorau unwaith yn rhagor yn y flwyddyn newydd.

Er mwyn y baban yn y crud.

"Ei haeddiant cyhoeddwn, a throsto ef gweithiwn i gyd."

O, a diolch, neu "Effharisto" fel 'se Luc 'di dweud yn ei Groeg orau.

***Delwyn***

***I'ch Dyddiadur***

## CYFNOD PRYSUR
## eto eleni

Bore Sul 10.30 – Rhagfyr 23

**Pasiant Nadolig y Plant**

Bore Mawrth – Dydd Nadolig – 10.00

**Gwasanaeth Bore'r Nadolig**

Bore Sul 10.30 – Rhagfyr 30

**Dr Ian Hughes**

Bore Sul 10.30 – Ionawr 6, 2019

**Delwyn Sion**

Bore Sul 10.30 – Ionawr 13, 2019

**Emlyn Davies**

Yna Pnawn Sul am 4.30 – Ionawr 13, 2019

**Plygain Gwaelod-y-garth**



Nos Fawrth 19.00 – Ionawr 15

**Cyri, Clonc a Chodi Arian**

yn y Mango House, Caerdydd

(gweler yr hysbyseb ar dudalen 3)

*ac i ddod ......*

Gwanwyn 2019

**Cyngerdd Al Lewis a Gildas**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch!*

# Suliau – Ionawr – Mawrth 2019

**IONAWR**
**6** Delwyn Sion
**13** Emlyn Davies / Plygain (4:30 p.m.)
**20** Parchg Dafydd Andrew Jones
**27** Parchg Glyn Tudwal Jones

**CHWEFROR**
**3** Delwyn Sion
**10** Parchg Gethin Rhys
**17** Parchg Gareth Morgan Jones
**24** Miss Eurwen Richards

**MAWRTH**
**3** Delwyn
**10** Elenid Jones (Apêl Madagascar yr Undeb)
**17** Parchg Ddr R. Alun Evans
**24** Parchg Ddr Noel Davies
**31** Parchg Allan Pickard


**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39


**Anfonwn ein cofion at y rhai canlynol sydd heb fod yn eu llawn iechyd yn ddiweddar:**

- ***Nia Jones, Ystum Taf***
- ***Eurfryn Thomas, Radur***
- ***Vi a Gwyn Jones Pentyrch,***
- ***Dafydd Huws, Gwaelod-y-garth***
- ***Dr Glyn O Phillips, Radur***

***Digwyddiadau i ddod –***
Ymweliad â Clinc
Bore Coffi Misol i'r henoed
Taith Gerdded y Pasg
Cyfraniadau Dillad

***Babis newydd!***

Croeso i **Aneirin Llyr** – babi newydd Rhian a Mike, Yr Eglwys Newydd, a brawd bach i Eirlys.

Sofia Arwen, babi cyntaf Elen a Scott yn Seland Newydd (wyres i Pwt a Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd).

A llongyfarchiadau i Stella a Pete Jones – yn nain a thadcu unwaith eto – croeso i Evan Gwyn, ail blentyn Geraint ac Amy.

**Llongyfarchiadau i'r canlynol:**

- ***Huw Evans*** ar ei ddyweddïad gyda Sioned Lake, yn Seland Newydd dros yr haf,.
- ***Rhys Powys*** ar ennill BAFTA arall gyda chriw Drama 'Parch', ac ar lansio CD 'Scam' gyda'n Grŵp Catsgam.
- ***Llyr Wilson Price***, un hanner y bartneriaeth enillodd £10,000 ar y rhaglen Celwydd Noeth ar S4C.
- ***Eilir Owen Griffiths*** a Chôr CF1 ar ennill cystadleuaeth gorawl ryngwladol yn Derry, Gogledd Iwerddon.
- ***Côr Caerdydd*** fu yn ninas Berlin yn recordio rhaglen i S4C - Cyngerdd Heddwch ddarlledwyd ar Sul y Cofio.
- ***A diolch i bawb fu'n canu carolau yng Nghartref Danesbrook House ar Ragfyr 9fed.***




## Noson at yr achos

*I'r rhai sydd wedi bod o'r blaen, fydd dim angen eich cymell i ddod eto am bryd Indiaidd yn y Mango House. Mae'r bwyty ar Heol Y Porth – Westgate St, lawr y ffordd o westy'r Angel.*
*Os nad ydych chi wedi bod – yna dewch y tro hwn. Rhowch eich enw i Angharad (a/neu Alwyn Harding). Fel gwelwch o'r hysbyseb ar y chwith, pan ddaw 40 enw i law, yna rhaid cau'r drysau!*
*Mae'n gyfle gwych i gymdeithasu, gyda dogn reit dda o'r pris yn mynd at ein helusen am eleni ( ac yn gyfle hefyd i flasu ambell ddantaith na fyddech chi wedi'i fentro o'r blaen.)*
*Oes angen dweud mwy?*
*(Gyda llaw, mae rhagor o hanesion Angharad ac Alwyn yn y rhifyn hwn)*

## Ymweliad Côr Meibion Perth:


Ar fore Sul Hydref 7fed, daeth 15 aelod o Gôr Meibion Perth (Awstralia), atom i ymuno yn ein hoedfa gymun o dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones. 'Roedd y côr ar daith o amgylch Cymru a Lloegr ac ail-uchafbwynt y daith iddynt, wedi'r ymweliad a Bethlehem, oedd cymryd rhan yng Ngŵyl Corau Meibion Cymru Llundain yn Neuadd Albert ar Hydref 13eg.
Mae brawd Ann Passmore, David Bonner, yn aelod (ac yn Ysgrifennydd) o'r côr, a'i ddymuniad ef ar eu rhan, oedd cael bod yn bresennol mewn oedfa ym Methlehem yn ystod eu taith.



Sefydlwyd y Côr yn wreiddiol yn 1926, dan yr enw *Commercial Travellers Association Choir*, ac yn ôl eu gwefan www.perthmalevoicechoir.org eu bwriad o'r cychwyn oedd dilyn traddodiad canu Corau Meibion Cymru. Mae 40 aelod yn y Côr ar hyn o bryd, dan arweinyddiaeth Ms Simone Bishop.
Dymuniadau da i'r Côr ar gyfer y dyfodol, a bydd croeso iddynt ym Methlehem ar eu hymweliad nesaf a'r cyffiniau.

## Gweithgareddau'r Hydref

# Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant












... a diolch i chithau, ein cynulleidfa gyson, am eich teyrngarwch.




**Sbri y Cwis a'r Bêcoff**

# Brêns Bethlehem





Alun Jenkins *(uchod)* oedd y cwis feistr ar noson y Cwis Mawr ac fel y gwelwch, doedd dim byd yn wylaidd yn yr enillwyr! Rydyn ni'n dewis peidio dangos siom y byrddau aflwyddiannus yn yr ornest, a hynny wedi i gymaint o'r aelodau hynny baratoi am wythnosau ar gyfer yr ornest! Llongyfarchiadau i'r enillwyr – Delwyn, Pwt, Marged, Delyth a Gwyn. Noson oedd hon i gasglu arian at yr elusen leol am eleni (Ysbyty Felindre)– ac ychwanegwyd tua £160 at y coffrau.

# Hoff noson pob cogydd a phrydydd

Gosodwyd amryfal dasgau ar gyfer "Becoff Bethlehem" – ac yn wir doedd y festri ddim cweit digon mawr ar gyfer y noson! Bu'n rhaid cwtsio pawb at ei gilydd i wneud lle i'r holl ddarpar addurnwyr, limrigwyr a chogyddion. Roedd tri hamper nobl ar y raffl, 'Cornel Coginio a Chelf' eithriadol o frwd a phrysur y plant dan ofal Enid, a chyn yr achlysur roedd her i greu unrhyw gacen/deisen/rholyn/tartenni Nadoligaidd a'r cynhyrchion i'w gwerthu er budd yr elusen.

Hefyd, ar y noson, roedd her i bob bwrdd addurno "swiss roll" i'w droi'n 'log' Nadolig a Margaret yn beirniadu. Yna Marian yn barnu'r addurn Nadoligaidd ar gyfer silffoedd ffenestri'r capel. Gosodwyd limrig a llinell goll gan Ifan – ac mae llun y pencerdd yn ar y dudalen nesaf.

Rhwng y tasgau, daeth cyfle i flasu trwyth a ffrwyth di-alcohol Huw a June ynghyd ag ambell ddantaith tymhorol.

Fel gwelwch o'r lluniau, isod a gyferbyn ar y dudalen nesaf, ni fu Bethlehem yn lle i osgoi sialens! Mae'n diolch i bawb fu'n rhan o'r gweithgareddau – yn drefnwyr, cystadleuwyr a chefnogwyr. Ar y noson, ychwanegwyd dros £700 at ein casgliad at ein helusen leol am eleni, Ysbyty Felindre.







Ym merw'r cystadlu a'r holl ddanteithion, ni fu fawr o drefn ar ein ffotograffwyr wrth gofnodi'r holl enillwyr unigol cwbl haeddiannol. Ymddiheuriadau – rydym yn cynnal cwrs hyfforddi cyn hir iddyn nhw ar sut i gydnabod y rhai buddugol a diystyru pawb arall! Am y tro, dyma ddetholiad cwbl ar hap o'r lluniau ddaeth i law!









Ond, isod, y mae un eithriad! Pan urddwyd Wyndham Richards, awdur y limrig buddugol, mewn seremoni hynod urddasol, roedd y paparazzi wrth law i gofnodi ymateb ei annwyl briod!
Mae'r awdur am i'r byd wybod mai Aran ydy'r "crwt a'r casglwr ffyddlon" ac mai Peredur, ein trysorydd, ydy Pwt yn y gerdd fuddugol:

Yn hepian mewn oedfa yr o'wn i
A'r blwch casglu pres yn dynesu
A phan basiodd y crwt
Mi rois chwyrnad go ffrwt
I brofi i Pwt 'mod i'n cysgu.

(Cardi Da)




# Oriel y Gwaelod





Rhaid, rhaid, rhaid cychwyn y tro hwn â Chatrin Dafydd – am ei champ yn ennill y goron ym Mhrifwyl Caerdydd. Erbyn hyn mae'n gyd-gyflwynydd 'Cat a Cats' gyda Catrin Heledd ar Radio Cymru ar fore Sadwrn a hyd yn oed yn arweinydd Noson Lawen ar S4C (gyda help Evita Morgan o'r Wladfa!). Mae hi wedi byw o fewn hyd braich i ddrws y capel ac wedi bod yn weithgar o'i phlentyndod ond bellach yn byw lawr tua Trelluest (Grangetown). Mae'n gynnyrch Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth, Ysgol Gyfun Rhydfelen, Prifysgol Aberystwyth. Bu'n ysgrifennu'n llawrydd ers 2006. Mae'n enillydd Medal Lenyddiaeth yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd, yn awdur y nofelau Pili Pala, Y Tiwniwr Piano, Random Deaths and Custard a Random Births and Love Hearts. Hi ydy enillydd Gwobr Ffuglen cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2018 am "Gwales".

Clod, yn sgil Catrin, hefyd i'w rhieni, June a Dafydd Huws, a ddaeth (yn ei geiriau hi ei hunan) "â'r byd i gyd yn grwn at y bwrdd bwyd a dangos fod modd herio pob dim am drefn Cymru a thu hwnt". Mae hi hefyd am gydnabod ei diolch i'w chwaer, Esyllt, a'i nith, Carmen Lisi.

## Drws Agored: Beirdd ac Artistiaid

Yr artist cyntaf i ymweld a Drws Agored yn y gyfres “Beirdd ac Artistiaid” eleni oedd Anthony Evans. Wrth reswm, nid oes angen ei gyflwyno i bobl Bethlehem oherwydd 'rydym eisoes yn ei ystyried fel yr “artist preswyl” yn ein plith, a’i gyfraniad ef, Glenys ei wraig, a’r teulu cyfan yn un gwerthfawr a phriodol bob amser.

Ond 'roedd cyfle yn Drws Agored i gael ei adnabod yn fwy trylwyr fel artist proffesiynol a cael cip ar y dylanwadau rheini fu’n llywio ei yrfa dros y blynyddoedd.



Pan oedd yn ifanc chwaraeodd comics ran bwysig yn ei ysfa i greu, a thra bod y rhan fwyaf ohonom yn canolbwyntio ar y storïau bryd hynny, y stribedi darluniau eu hunain oedd yn mynd a’i sylw ef.

Soniodd am ei hoffter o waith Pieter Bruegel (c 1525-1530 – 1569), Iseldirwr oedd yn enwog am ddarlunio tirluniau a golygfeydd a fyddai’n cynnwys ynddynt aelodau‘r werin bobol y trigai yn eu mysg, gan ddefnyddio onglau diddorol i gyfleu’r stori o’u mewn.

Un arall o’i ffefrynnau oedd Josef Herman (1911 – 2000), a hanai o wlad Pwyl, ond a ymgartrefodd yn Ystradgynlais am gyfnod o 11 mlynedd o 1944 ymlaen. Fel “Joe Bach” y cyfeirid ato bryd hynny, ac mae ei luniau o’r glowyr, y caledi a’r chwys, yn eu budreddi, yn drawiadol a digyfaddawd.

O wybod hyn, hawdd iawn ydi gweld yn lluniau Anthony bwysigrwydd cefn gwlad iddo, ei hadeiladau, ei diwydiant a’i diwylliant, yn aml iawn yn cael eu cynrychioli mewn stribedi ar gynfas, yn ddrych o’r hyn ydy ef ei hun, sef gwladgarwr a gwerin-garwr gonest a balch.

Ewch i Oriel Canfas yng Nghaerdydd (www.orielcanfas.co.uk) os am weld Anthony wrth ei waith yn ei stiwdio - ond peidiwch a mynd rhy agos ato oherwydd, fel arfer, mae 'na lot o baent ar ei gôt!

**Y Cwrdd Merched**

# CYCHWYN GWYCH I'R TYMOR NEWYDD




Braf oedd cael bod nôl gyda'n gilydd fel criw am dymor newydd ar ddechrau Medi. Cawsom groesawu'r awdur, bardd a'r newyddiadurwr, Martin Huws, Ffynnon Taf. Siaradodd yn ddiddorol iawn am ei daith lenyddol, ac yn arbennig am ei gyfrol ddiweddaraf, ddaeth o'r wasg, ddechrau'r haf eleni **'Yr Awyr yn Troi'n Inc'.** Bu'r gwaith hwn o fewn trwch blewyn o gipio'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017. Cyfrol o storïau byrion ydy hi, a rheini, yn ôl Beirniaid y Genedlaethol, yn rhai gwahanol ac arloesol. Pleser oedd gwrando Martin yn sôn am y gyfrol ac yn darllen rhai o'r storïau. Roedd yn cydnabod yn ddiolchgar yr anogaeth gafodd gan Dafydd Huws, Gwaelod-y-garth, i ddechrau ysgrifennu'n greadigol. Mae cyfrolau Martin i gyd wedi cael derbyniad da gan ddarllenwyr Cymraeg. Edrychwn ymlaen yn awchus at y gyfrol nesaf o'i waith.

Ar ddechrau Hydref cawsom gwmni'r darlledwr a'r newyddiadurwr Eifion Glyn. Roeddem i gyd yn falch o'i weld adre'n saff ar ôl treulio dyddiau yn Affganistan gyda criw Ffilmio ddiwedd Medi. Bu'n bnawn emosiynol yn gwrando ar Eifion yn disgrifio ei holl brofiadau ar sawl taith dramor mewn llefydd peryglus iawn. Rhoddodd ddarlun byw a graffig iawn o nifer o sefyllfaoedd peryglus y bu ynddynt a hynny er mwyn cyflwyno gwybodaeth i wylwyr S4C o helyntion y brodorion a'r milwyr o Gymru yn Affganistan. Er fod Eifion wedi ymddeol erbyn hyn, bydd gennym gyfle ym mis Rhagfyr i'w weld eto ar S4C yn adrodd y stori am ei brofiadau yn Affganistan. Edrychwn ymlaen at hynny.



Yn ein cyfarfod mis Tachwedd cawsom gwmni Y Parchg. Allan Pickard. Aeth Allan a ni yn eitha pell o Fethlehem, i Swydd Norfolk ac i ddinas Norwich. Diddorol iawn oedd gwrando ar Allan yn sôn am fywyd a gwaith Santes Julian(1342 – 1416)o Norwich. Meudwy oedd hi, yn byw mewn cell oedd ynghlwm wrth Eglwys St. Julian, Norwich. Roedd yn amlwg yn ferch alluog a chredir mai hi oedd y ferch gyntaf i ysgrifennu llyfr yn Saesneg, 'Revelations of Divine Love'. Byddai llawer yn dod ati i ofyn am ei chyngor. Roedd yn byw mewn cyfnod o gynnwrf a chythrwbl, ond roedd ei chred yn Nuw yn gryf a'i neges yn un obeithiol, bositif. Y dywediad cyson oedd ganddi oedd ***"All shall be well**, **and all shall be well, and all manner of things shall be well"*** Mae'n siŵr y byddai'n dda i ni yn y dyddiau cythryblus yma gofio'r geiriau hyn. Gyda'r lluniau 'PowerPoint' a'i ddisgrifiadau clir, teimlem fod Allan wedi dysgu llawer i ni yn ystod ei gyflwyniad. Os daw cyfle i chi ymweld â Norwich cofiwch fynd i chwilio am Eglwys St. Julian. Hefyd, fel y crybwyllodd Allan, mae llawer o wybodaeth amdani ar y We a nifer o lyfrau wedi ei hysgrifennu am ei bywyd a'i gwaith

Yn y tri chwrdd uchod, hyfryd iawn oedd cael cwmni rhai o ddynion Bethlehem. Mae croeso mawr bob tro i unrhyw ddyn sy'n chwilio am awr ddifyr ar yr ail ddydd Mawrth yn y mis am 1.30yh.



Roedd ein cyfarfod olaf eleni yng ngofal Marian Evans - a dyna wledd gawson ni! Tra 'roedden ni'n eistedd yn ôl yn braf i wylio aeth Marian ati i baratoi danteithion y Nadolig: Twrci Pasta a Pesto, Caws Roquefort gyda brandi, Pwdin Bara Menyn Pannetonne a Phwdin Coffi; a hyn i gyd o fewn awr! Ac fe alla'i eich sicrhau bod y cyfan yn flasus iawn. Diolch yn fawr i Marian am bnawn mor bleserus. Nadolig llawen a bendithiol i bawb.

**(MJ)**

**Nodiadau'r Cwrdd Diaconiaid** **15fed o Hydref 2018**

Wele isod fanylion am y materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf o'r Diaconiaid a gynhaliwyd ar y 15fed o Hydref 2018:-

- **Y Ddiaconiaeth:** Bwriedir cynnal Cwrdd Eglwys yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bryd hynny bydd cyfle, ymysg nifer eraill o faterion, i ystyried y Ddiaconiaeth ym Methlehem. Yn dilyn ymddeoliad Eirlys Davies (Radur) fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, mae'r swyddogaeth bwysig honno bellach yn cael ei gwneud gan Delyth Evans (Y Barri). Yn sgil hynny, y dyhead oedd i Delyth ymuno a rhengoedd y Diaconiaid, ac fe gyflwynwyd hynny'n ffurfiol ger bron yr aelodaeth ar fore Sul yr 21ain o Hydref 2018.

- **Taflunydd i'r Capel:** Yn dilyn y defnydd cynyddol a wneir mewn oedfaon, mae'n fwriad cael taflunydd sefydlog wedi ei osod uwchben y pulpud (cyn belled a bod modd gwneud hynny mewn ffordd sy'n gydnaws a'r adeilad ei hun).

  Bydd ystyriaethau pellach yn cael ei rhoi i ddarparu goleuadau newydd yn y capel, a fydd yn eu tro yn rhatach i'w rhedeg ac yn haws i'w trafod. Hefyd byddid yn edrych ar wella'r system sain.

  Byddai'n rhaid cadw llygad ar foeler gwres canolog y capel wrth i'r gaeaf agosáu oherwydd yr atgyweiriadau mynych a wnaethpwyd i'w chadw 'nghyn dros y cyfnodau diweddar yma. Hwyrach y bydd rhaid ystyried boeler newydd cyn hir.

- **Diogelu Plant ac Oedolion Bregus:** Nodwyd bod y broses o sicrhau cydymffurfio a'r deddfwriaethau a'r rheoliadau disgwyliedig yn parhau, a gwerthfawrogir gor-olwg Mair John dros y materion yma.

- **Hyrwyddo Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr:** Bydd Elenid Jones yn arwain oedfa ym Methlehem ym mis Mawrth 2019, a threfnir casgliad arbennig bryd hynny.

- **Cwmni aelodau'r Alltwen:** Ym mis Gorffennaf 2019 (Sul Delwyn Sion), bydd taith gan y Parchedig Gareth Morgan Jones ac aelodau'r Alltwen i'r cyffiniau yn cynnwys mynychu'r oedfa ym Methlehem.

- **Elusen 2018/19 (Ysbyty Felindre a Banc Bwyd Caerdydd):** Nodwyd penderfyniad gan yr aelodau, mewn pleidlais, i gefnogi Ysbyty Felindre fel elusen leol am flwyddyn arall a bod parhad hefyd ar gefnogaeth i Fanc Bwyd Caerdydd.

  Nodwyd yn ogystal yr ymateb hael i'r alwad frys o du Canolfan y Drindod, Caerdydd am gymorth i ddilladu ffoaduriaid ac ymgeiswyr lloches, ac y byddid yn ystyried ceisiadau o'r fath eto yn y dyfodol.

  Fel rhan o'r gweithgareddau codi arian ar gyfer y tymor gobeithir cynnal y canlynol;-

- **Cyfrifon Ariannol:** Dewiswyd Lowri Clement (ar ran yr aelodau) a Huw Lloyd (ar ran y Diaconiaid) i wirio cyfrifon ariannol y capel.

Nodwyd yr ymateb brys i geisiadau am gymorth ariannol, trwy law Cymorth Cristnogol a DEC, i lifogydd yn Kerala (£1k) a'r Swnami yn Indonesia(£1.5k).

- **Apêl y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd:** Cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at y gost. o brynu offer clust ar gyfer y Pasiant Nadolig a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod mis Rhagfyr (bydd yr offer ar gael i'w fenthyg i'r gwahanol eglwysi wedi hynny).

- **"Heddwch yn y Ddinas":** Nodwyd y bydd ail-lansiad o ail-argraffiad "Heddwch yn y Ddinas" [Jon Gower - pris £5] yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd ar y 15fed o Dachwedd. Bydd modd cael copïau ym Methlehem wedi hynny. Bu'r Parchedig R Alun Evans a rhan allweddol yn sicrhau bod y fenter yma wedi ei hariannu a'i gwireddu.

- **Cwrdd Chwarter:** Emlyn Davies (Tabernacl, Efail Isaf) sydd wedi ei ethol yn Gadeirydd y Cwrdd Chwarter - bydd cyfarfod mis Chwefror 2019 ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, a bryd hynny gwahoddwyd Beti George a meddyg i drafod "dementia".

# Bedyddiadau Bedyddiadau Bedyddiadau



*Fore Sul, Hydref 21, roedd triawd o fabis yn aros yn eiddgar am eu tro. Dyma'n sicr yr oedfa gyntaf lle cafodd Delwyn y fraint o fedyddio tair bach newydd - Nanw Kiti a'r efeilliaid, Nia Mererid a Ffion Eiddwen.*



*(uchod) Bedydd Nanw Kiti, sef merch i Sara ac Aled a chwaer fach i Elis a Steffan, Creigiau (a wyres newydd Gwyneth Lewis, Pentyrch)*

*(isod) Bedydd Ffion Eiddwen a Nia Mererid, efeilliaid Geraint a Manon, a dymuniadau da iddyn nhw ar ôl symud i Efail Isaf i fyw (Dwy wyres arall i Rhian, Ffwrnes Blwm)*





(a rhagor ar y dudalen nesaf)

Bedyddiadau Bedyddiadau Bedyddiadau



(uchod) Bedydd Tomos Elis Harding, mab Gwion a Rhian, Treganna brawd bach i Alaw (ŵyr i Alwyn ac Angharad, Ffynnon Taf).



(uchod) Bedydd Anna, merch Esyllt a Richard, Dinas Powys, a chwaer fach i Tomos (wyres i Eirlys Davies, Radur).

# Croeso i aelodau newydd

Yn oedfa Bore Sul, Rhagfyr 2il, daeth cyfle i Delwyn Sion dderbyn dau aelod newydd i'n plith. Nid dau mor newydd a hynny, ychwaith, gan iddyn nhw symud i'r fro a mynychu'r oedfaon ers ymron i flwyddyn bellach. Yn wir, y ffordd orau i gyflwyno'r ddau, Gwyn a Marian Roberts, ydy drwy ail-ddyfynnu'r nodiadau anfonodd Gwyn at Rhodri, ac fe'i darllenwyd nhw wrth eu derbyn:



*“Hogyn o’r Bala. Magwyd yn annibynnwr yn nhref Tomos Charles - mewn cyfnod pan oedd enwadaeth yn bwysig. Hyfforddwyd yn athro yng Ngholeg Cyncoed 1969-72 pan oedd trolleybuses yn dal i redeg hyd strydoedd Caerdydd a Chylchfan Gabalfa yn ddim mwy na thwll yn y ddaear.*

*Wrth ei fodd yn Bennaeth ysgol Llanfairtalhaiarn gan fyw a gweithio yn yr un pentref. Priodi â Marian yn 1980 ac ymuno gyda hi yn Fedyddiwr yng Nghapel Salem. Erbyn diwedd y degawd roedd iddynt ddwy ferch, Nia a Lois. Heb fod yn aelod eglwysig ers cau Salem tua deng mlynedd un ôl.*

*Newid gyrfa rhywfaint ar droad y ganrif i dderbyn sialens wahanol o hyfforddi athrawon mewn technoleg gwybodaeth. Penodiad wedyn yn Ymgynghorydd Addysg yn Sir Conwy, gan arwain y tîm Gwella Ysgol yno erbyn ei ymddeoliad yn niwedd Mis Mawrth 2013.*

*Fore trannoeth, Dydd Ffŵl Ebrill, cychwyn cerdded Llwybr yr Arfordir, bob yn damaid, gan ddechrau ar gyrion Caer, a’i gwblhau ddeunaw mis yn ddiweddarach yng Nghas-gwent.*

*Gydag ymddeoliad Marian, roedd y ddau yn rhydd i fwynhau teithio’r cyfandir yn ogystal a dod i adnabyddiaeth ddofn o droadau yr A470! Roedd y merched erbyn hyn wedi priodi dau o hogie Caerdydd ac wedi ymsefydlu yma. Felly, pan aned Huw yn fab i Rhys a Nia, ac wedyn, Elis, mab Owen a Lois, roedd y penderfyniad o godi pac a symud i’r Brifddinas yn un naturiol.*

*Maent, er dechrau Ionawr, wedi ymgartrefu yn Rhydlafar, ar Ffordd Llantrisant, ac yn mwynhau rôl newydd Nain a Taid!"*

*Alwyn ac Angharad yn adrodd hanes*

# Taith Saith Llyn



Wedi i Rhian, ein merch yng nghyfraith, dderbyn canlyniadau cadarnhaol iawn yn dilyn triniaeth am ganser yn gynharach yn y flwyddyn (Hodgkin Lymphoma) penderfynom wneud rhywbeth ymarferol i helpu eraill oedd yn cael eu hunain yn yr un sefyllfa. Ar ddiwedd Awst a dechrau Medi felly buom yn cerdded o amgylch nifer o lynnoedd ein gwlad, er mwyn codi arian tuag at elusen Lymphoma Action.

Dyma hanes ein hymgyrch mewn rhifau -

**2** Dau berson, un mawr, un llai. Dau grys ’T’ lliw porffor, (un ‘XL’ ac un ’S’ - diolch i Lymphoma Action) a dau bâr o ‘sgidiau cryfion.

**7** Saith llyn (dau naturiol, pump cronfa ddŵr), sef Padarn, Tegid, Brenig, Llanwddyn (Efyrnwy), Trawsfynydd, Talybont a Llandegfedd. Pam saith? Am ei fod yn odli a ‘taith’ wrth gwrs!

**61** Cyfanswm y milltiroedd o gwmpas y saith llyn. Mae hynny’n gant o gilomedrau, sef o leiaf can mil o gamau breision! Ond rhaid cofio, ‘mae cam dros y trothwy yn hanner y daith’.

**25** Y nifer o oriau buom yn cerdded. Heb gyfri amseroedd cinio, amser paned ac ati. Pymtheg can munud, ac wedi mwynhau bob un (wel, bron!). Cerdded ar gyfartaledd o ddwy filltir a hanner yr awr.

**35** Pan oedd y coesau’n dechrau blino roedd yn deimlad braf gwybod ein bod yn codi pymtheg punt ar hugain am bob milltir roeddem wedi’i chwblhau!

**12** Llyn Llanwddyn (sef cronfa Efyrnwy sy’n darparu dŵr ar gyfer dinas Lerpwl) oedd y mwyaf o’r llynnoedd. Mae’n ddeuddeg milltir o’i chwmpas. Yr unig un o’r llynnoedd ble mae’r llwybr yn cadw at lan y llyn, ac yn weddol wastad. Mae arwynebedd Llyn Llanwddyn cyfartal a chwe chan cae pêl-droed (!) ac ar ddiwrnod clir mae’n bosib ei weld o’r gofod. Braf oedd cwrdd â dau ifanc o Hong Kong fu’n ddigon hael i gyfrannu at ein hachos.



Ai cyfri neu gysgu oedd Alwyn fan hyn?

**2,100** Hyd yma codwyd dros ddwy fil a chant o bunnoedd. Ac mae rhodd cymorth o dros bedwar cant o bunnoedd i’w ychwanegu.

**4** Mae’r arian a godwyd yn ddigon i ariannu pedwar ‘Gweithdy Byw Bywyd’ sy’n cael eu cynnal gan Lymphoma Action. Cynhelir y gweithdai mewn lleoliadau ar draws gwledydd Prydain (roedd y gyntaf yn Chapter, Caerdydd ar ddechrau Medi). Bwriad y gweithdai yw rhannu gwybodaeth, dangos cefnogaeth a galluogi’r dioddefwyr ifanc (18-30 oed) i wneud cysylltiadau hefo eraill â’r un cyflwr.

**80** Caiff o leiaf bedwar ugain o bobol ifanc gefnogaeth ymarferol diolch i’ch cyfraniadau chi.

**5** Dros wledydd Prydain caiff pump o bobol diagnosis Hodgkin Lymphoma bob dydd. Mi fydd pedwar o bob pump yn goroesi ac mae Rhian, diolch am hynny, yn un ohonynt.

**91** Y nifer sydd wedi cyfrannu at ein hachos hyd yma. Diolch eto!

**6** Mae’r gronfa ar agor am chwech wythnos arall. Byddai’n braf gallu talu am un gweithdy ychwanegol a’i wneud yn bump. Os na chawsoch gyfle i gyfrannu, dyma’r linc: **https://mydonate.bt.com/fundraisers/alwynacangharadjones1**

**100,000** Can mil diolch i bawb sydd wedi cyfrannu’n barod!


# Naw Llith a Charol ym Methlehem




Nos Sul, Rhagfyr 16 – Noson y Naw Llith a Charol. Anodd ceisio ailadrodd y profiad o glywed seiniau Côr CF1 dan arweiniad Eilir Owen Griffiths yn atseinio clod ym Methlehem. Mae'n diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu cyflwyniadau cain, i Delyth am drefnu'r noson ac bob un o'r unigolion gymerodd ran. Ond rhaid nodi i "lith" Rhys Powys nid yn unig fod yn wahanol (yn enwedig ei "No") ond iddo hefyd ysgogi sawl cais ar y diwedd am gael copi o'r gerdd. [Rhys – byddai baledwyr y dyddiau a fu wedi argraffu copïau parod i fod ar werth ar ddiwedd y cyflwyniad!].








(rhagor ar y dudalen nesaf)






Cofiwch am yr oedfaon arbennig:

Bore Sul 10.30 – Rhagfyr 23
**Pasiant Nadolig y Plant**

Bore Mawrth – Dydd Nadolig – 10.00
**Gwasanaeth Bore'r Nadolig**

Pnawn Sul Ionawr 13, 2019 - am 4.30 y pnawn
**Plygain Gwaelod-y-garth**

**Dewch!** **Dewch!** **Dewch!**